# SWYDD-DDISGRIFIAD

TORFAEN COUNTY BOROUGH — BWRDEISTREF SIROL TORFAEN

| Manylion y Swydd | |
|---|---|
| Teitl y Swydd: Pennaeth y Tîm Partneriaeth Rhanbarthol | |
| Gradd: Gradd 12 - PGS 50 - 53 | |
| Isadran: Cyfarwyddiaeth Plant a Theuluoedd (Gofal Cymdeithasol) | Maes Gwasanaeth: Tîm Partneriaeth Rhanbarthol Gwent |
| Atebol i: Y Cyfarwyddwr Strategol neu'r Cyfarwyddwr Arweiniol, ar ran aelodau Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Gwent | Yn gyfrifol am: gefnogi'r Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol a chyflawni ei raglen trwy reoli'r tîm partneriaeth rhanbarthol |
| | |
| Rhif Gwerthuso'r Swydd 2932 | Dyddiad Cyhoeddi: Mehefin 2024 |

## Diben y Swydd

Arwain y rhaglen gymhleth o waith partneriaeth o dan Fwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Gwent, dan arweiniad Cyfarwyddwyr a Phenaethiaid Gwasanaeth ar draws y partneriaid. Bydd hyn yn cynnwys gweithio'n agos mewn partneriaeth ag amrywiaeth eang o bartneriaid rhanbarthol gan gynnwys Iechyd, y trydydd sector, landlordiaid cymdeithasol cofrestredig a phartneriaid yn y sector annibynnol, yn ogystal â chyfrannu ar lefel Cymru gyfan gyda Llywodraeth Cymru a rhanddeiliaid eraill. Mae hon yn rôl uchel ei phroffil sy'n uniongyrchol atebol i 5 Cyfarwyddwr Statudol Gwasanaethau Cymdeithasol trwy fframwaith llywodraethu rhanbarthol.

Bydd deiliad y swydd yn arwain ar drefniadau cymorth rhanbarthol i yrru trawsnewidiad a datblygiad parhaus iechyd a gofal cymdeithasol yn rhanbarth Gwent. Bydd y rôl hon yn arwain wrth gefnogi llywodraethu effeithiol y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol a'i strwythurau ategol, gan gynnwys y Grŵp Arwain gweithredol, ac yn sicrhau bod ffocws ar gyflawni canlyniadau gwell i bobl, cymunedau a sefydliadau.

## Prif Gyfrifoldebau ac Atebolrwydd

Cefnogi'r Cyfarwyddwyr a'r holl Benaethiaid Gwasanaeth ar draws partneriaid statudol, Cadeirydd y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol, Aelodau'r Cabinet a Chadeiryddion Partneriaethau, i redeg y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol a'r partneriaethau hynny a sefydlwyd o dan y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol yn

INVESTORS IN PEOPLE

effeithiol, er mwyn datblygu gwasanaethau ar gyfer dinasyddion a chymunedau a'u gwella.

Rheoli'r fframwaith llywodraethu ar y cyd ar gyfer gwaith partneriaeth rhanbarthol sy'n sicrhau bod blaenoriaethau'r Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol yn cael eu cyflawni trwy raglenni gwaith mewn partneriaethau integredig. Mae hyn yn cynnwys adrodd am grantiau a gyflwynir trwy'r Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol.

Bod yn bwynt cyswllt ar gyfer y rhanbarth, gyda swyddogion arweiniol Llywodraeth Cymru ynghyd â chadeirydd y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol, i hwyluso a sicrhau ymgysylltiad â pholisïau, adrodd ar lefel genedlaethol a chynllunio'n strategol ar lefel genedlaethol.

Dod i benderfyniadau mewn ffordd effeithiol o dan y fframwaith llywodraethu ar gyfer y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol a'r partneriaethau rhanbarthol, sy'n sicrhau bod y bartneriaeth yn cyflawni ei chyfrifoldebau statudol mewn ffordd sy'n gwella canlyniadau i bobl Gwent.

Cyflwyno strategaeth gyfathrebu ac ymgysylltu effeithiol gyda rhanddeiliaid allweddol, gan ddefnyddio cylchlythyron, y rhyngrwyd, cyfryngau cymdeithasol a'r wefan i hyrwyddo gwaith y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol.

Sicrhau bod gwaith y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol yn cyflawni gofynion statudol Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol ac Aelodau Gweithredol y Bwrdd Iechyd ac anghenion eu Cynghorau a'u Byrddau.

Cefnogi'r Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol a'r rhaglen waith ranbarthol trwy hwyluso cydweithio, i gyflawni amcanion rhanbarthol y cytunwyd arnynt, trwy ddefnyddio'r adnoddau sy'n bodoli yn effeithiol, er mwyn rhannu arbenigedd a chyfrifoldebau'n effeithiol ar draws y rhanbarth. Er mwyn gwneud hyn, bydd gofyn sicrhau arweiniad a thrafod medrus - yn y rhan fwyaf o achosion trwy weithio gyda thîm rhithwir sy'n rhychwantu nifer o sefydliadau.

Dod i gyswllt â Llywodraeth Cymru ynghylch:

- Datblygu'r rheoliadau allweddol a'r canllawiau/syniadau allweddol ar gyfer ymarfer sydd wrth wraidd Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru)
- Datblygu'r cynllun gweithredu cyffredinol i sicrhau bod pob Awdurdod Lleol yn cydymffurfio â'r gofynion a nodir yn y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant;
- Sicrhau mewnbwn perthnasol gan ardal Gwent Fwyaf i grwpiau technegol ac ymgynghorol ac adborth i Gyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol

Gweithio gyda Thimau Comisiynu Arweiniol ac Arweinwyr Rhaglenni/Prosiectau i uchafu adnoddau ac i sicrhau synergedd rhwng rhaglenni.

Cynnal cysylltiadau gyda Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol eraill, gan sicrhau bod dysgu'n cael ei rannu a gwaith trawsnewidiol yn cael ei gydlynu.

Cynrychioli Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Gwent yn effeithiol mewn fforymau lleol, rhanbarthol a chenedlaethol fel swyddog arweiniol rhanbarthol dynodedig, gan weithio gyda Rheolwr y Rhaglen Grantiau a enwebwyd gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan.

Bod yn gyfrifol am gyllideb y tîm partneriaeth rhanbarthol.

**Adnoddau/Offer/Deunyddiau**

Sicrhau cydymffurfiaeth â'r holl ofynion a’r arweiniad statudol mewn perthynas â chasglu gwybodaeth sy'n seiliedig ar wasanaethau a chleientiaid, cynnal y wybodaeth a'i storio.

Bydd deiliad y swydd yn gyfrifol am reoli'r defnydd effeithiol o gyllideb y tîm partneriaeth rhanbarthol ac unrhyw gyllid arall a ddirprwyir ac a ddarperir ar gyfer rhaglenni a phrosiectau rhanbarthol.

Bydd deiliad y swydd yn sicrhau bod gofynion Llywodraeth Cymru a phartneriaid rhanbarthol o ran monitro gwasanaethau/ariannol yn cael eu bodloni, mewn cyswllt â'r Timau Comisiynu Arweiniol.

Bydd deiliad y swydd yn darparu tystiolaeth i gefnogi gofynion Llywodraeth Cymru a phartneriaid rhanbarthol o ran monitro gwasanaethau/ariannol ac adrodd.

**Goruchwylio / Rheoli Pobl**

Bydd deiliad y swydd yn sicrhau bod unrhyw staff y mae'n rheolwr llinell arnynt yn cael amcanion unigol clir a bydd yn cefnogi proses sefydlu, perfformiad a datblygiad staff.

Rheoli staff y tîm partneriaeth rhanbarthol.

Dyma swydd allweddol, ac mae'n gofyn am sgiliau arwain, trafod a threfnu cryf ac mae'n debygol y bydd deiliad y swydd wedi cael sawl blwyddyn o brofiad mewn rôl uwch-reoli ym maes gofal cymdeithasol neu iechyd.
Bydd angen gwybodaeth helaeth ar ddeiliad y swydd am gyfrifoldebau statudol Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol a'r disgwyliadau a nodir yn Neddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru).

Bydd angen sgiliau cyfathrebu effeithiol ar ddeiliad y swydd, er mwyn sicrhau consensws ar draws y rhanbarth ac i addasu at flaenoriaethau sy'n newid a gofynion Llywodraeth Cymru.

Bydd gweithio'n symudol, gan ddefnyddio technoleg i'r effaith orau, yn ofyniad allweddol er mwyn sicrhau bod yr holl randdeiliaid yn cael gwybodaeth reolaidd am gynnydd.

| **Amodau Gwaith Arbennig** |
| --- |
| Bydd gofyn i ddeiliad y swydd weithio ar draws y rhanbarth a mynd i ddigwyddiadau cenedlaethol i sicrhau bod y rhanbarth yn gallu cyfrannu at bolisïau ac arferion newydd, a'u cyflawni, wrth i waith partneriaethau rhanbarthol aeddfedu gydag amser. |

**Cyffredinol**

- Cadw cyfrinachedd ym mhob agwedd ar y gwaith.
- Cymryd rhan ym mhroses oruchwylio’r maes gwasanaeth a/neu’r broses Arfarnu Corfforaethol.
- Dangos parodrwydd i ymgymryd â chyfleoedd hyfforddi, datblygu a dysgu i wella sgiliau.
- Cydymffurfio â gweithdrefnau a phrosesau Deddf Iechyd a Diogelwch 2009 a chefnogi eraill i wneud hynny.
- Glynu at delerau’r Strategaeth Gweithio Amgen os bydd y swydd yn gymwys.
- Gweithio o fewn polisi a gweithdrefnau’r Cynghorau o ran cyfle cyfartal ac arferion gwrth-wahaniaethu a gwrth-ormesol.
- Glynu at egwyddorion Diogelu Data wrth ymgymryd â’ch dyletswyddau ac adrodd am unrhyw achos o dorri rheolau i’r tîm diogelu data yn dpa@torfaen.gov.uk
- Rydych yn gyfrifol am ymgymryd â’ch dyletswyddau mewn modd sy’n diogelu ac yn hyrwyddo lles plant, pobl ifanc ac oedolion mewn perygl. Rhaid i chi adrodd am unrhyw faterion o bryder mewn perthynas â diogelwch a lles plant, pobl ifanc ac oedolion mewn perygl i’r Swyddog Dynodedig yn eich gwasanaeth. Rhaid i chi leisio unrhyw bryder neu honiad o gamdriniaeth neu esgeulustra heb oedi.
- Derbyn y gall y swydd-ddisgrifiad hwn gael ei adolygu o bryd i’w gilydd.
- Ymgymryd ag unrhyw ddyletswyddau eraill a/neu amseroedd gwaith y gellir gofyn i chi eu gwneud yn rhesymol, yn gymesur â’ch gradd neu lefel gyffredinol o

INVESTORS IN PEOPLE

| |
|---|
| gyfrifoldeb o fewn y sefydliad, yn eich man gwaith chi neu mewn unrhyw sefydliad arall. |

# MANYLEB PERSON

TORFAEN COUNTY BOROUGH — BWRDEISTREF SIROL TORFAEN

| | |
|---|---|
| Teitl y Swydd: Pennaeth y Tîm Partneriaeth Rhanbarthol | Dyddiad: Mai 2024 |
| At ddefnydd y swyddfa yn unig | |
| Gosodwyd ar y rhestr fer gan: | |
| Enw'r Ymgeisydd: | Dyddiad: |

**Nodwch y bydd angen i chi fodloni'r meini prawf hanfodol er mwyn cael eich gwahodd i gyfweliad.**

| **Gofynion** | **Dull Dethol** | | |
|---|---|---|---|
| | **Hanfodol neu Ddymunol** | **Sgôr** | **Profi yn y Cyfweliad a/neu ar y Ffurflen Gais** |
| **Addysg/Cymwysterau/Gwybodaeth** | | | |
| 1.1 Cymhwyster rheoli ar lefel DMS neu'r cywerth neu o leiaf 5 mlynedd o brofiad perthnasol fel rheolwr | H | | **FfG** |
| 1.2 Cymhwyster proffesiynol ar lefel Gradd ym maes iechyd, gofal cymdeithasol neu faes cysylltiedig | H | | **FfG** |
| 1.3 Gwybodaeth sylweddol am ddatblygu polisi, ei ddadansoddi a'i adolygu | H | | **FfG/C** |
| 1.4 Gwybodaeth helaeth am ddeddfwriaeth a fframweithiau partneriaeth perthnasol a dealltwriaeth ohonynt. | H | | **FfG/C** |
| 1.5 Profiad sylweddol y gallwch ei ddangos o Reoli Rhaglenni / Prosiectau | **D** | | **FfG** |
| **Profiad** | | | |
| 2.1 Profiad profedig o reoli gwasanaethau'n llwyddiannus ar lefel uwch mewn llywodraeth leol neu yn y sector cyhoeddus | H | | **FfG/C** |
| 2.2 Profiad o ddylanwadu ar waith partneriaeth a'i gefnogi gydag ystod eang o asiantaethau a rhanddeiliaid. | H | | **FfG/C** |

INVESTORS IN PEOPLE

| | | | |
|---|---|---|---|
| 2.3 Profiad o weithio mewn amgylchedd gwleidyddol | H | | **FfG/C** |
| 2.4 Profiad o ddadansoddi gwybodaeth ar lefel uchel er mwyn datblygu achosion busnes a goleuo penderfyniadau. | H | | **FfG/C** |
| 2.5 Profiad o reoli, cynllunio, cyflawni a monitro newid ar lefel strategol. | H | | **FfG/C** |
| **Sgiliau a Galluoedd** | | | |
| 3.1 Sgiliau ysgrifenedig a llafar rhagorol | H | | **FfG/C** |
| 3.2 Sgiliau rheoli pobl a pherfformiad effeithiol. | H | | **FfG/C** |
| 3.3 Y gallu i weithio'n strategol, a dylanwadu mewn ffordd gadarnhaol/adeiladol ar brosesau penderfynu | H | | **FfG/C** |
| 3.4 Sgiliau iaith Gymraeg | **D** | | **FfG** |
| **Nodweddion Personol** | | | |
| 4.1 Arddangos ymrwymiad cryf i wella'n barhaus ac yn meddu ar hanes o fodloni targedau a rhagori arnynt. | H | | **C** |
| 4.2 Meddwl yn gyflym ac yn hyblyg a dangos y gallu i arwain yn hyblyg wrth ymateb i amgylchedd sy'n newid | H | | **C** |
| 4.3 Yn credu yn ethos gwasanaethau cyhoeddus ac yn gosod esiampl o safonau ymddygiad uchel yn y cyswllt hwn | H | | **C** |
| 4.4 Ymdrin â sefyllfaoedd o wrthdaro mewn ffordd ddigynnwrf a rhesymegol a pheidio â chilio rhag sefyllfaoedd anodd | H | | **C** |
| 4.5 Gweld gweithio mewn partneriaeth fel cyfle yn hytrach na chyfyngiad | H | | **C** |
| 4.6 Hunanymwybodol a hunan-gydnerth | H | | **C** |
| 4.7 Hunanysgogol iawn ac yn gweithredu ar eich menter eich hunain | H | | **FfG/C** |

| **Amgylchiadau** | | | |
|---|---|---|---|
| 5.1 Ar gyfer y rôl hon efallai y bydd gofyn teithio ledled Cymru | H | | **C** |
| 5.2 Ar gyfer y rôl hon mae gofyn gweithio y tu allan i'r oriau craidd ar adegau | H | | **C** |
| 5.3 Cofrestriad wedi'i ddiweddaru gyda'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd gan fod y rôl yn gofyn am ymgymryd â gweithgarwch sy'n cael ei reoleiddio | H | | **C** |
| **Cyfanswm Sgôr y Rhestr Fer** | | | |

Allwedd i'r sgôr: 0 = Heb fodloni'r meini prawf 1 = Wedi bodloni'r meini prawf yn llawn